



Pa ymyriadau sy'n effeithiol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl (a) mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd; a (b) ar ôl i lifogydd ddigwydd: Adolygiad cwmpas ystwyth o'r llenyddiaeth

Lluniwyd gan:

Kate Shiells, Uwch Ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Alesha Wale, Uwch Ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Golibe Ezenwugo, Dadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Amy Hookway, Prif Ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dyddiad cwblhau: Mai 15, 2024.

Cyflwyniad.....	2
Ystyriaethau a chyfyngiadau methodolegol:	3
Amcanion	3
Y Negeseuon allweddol	3
Canfyddiadau	4
Trafodaeth, cyfyngiadau, a chasgliadau	8
Opsiynau ar gyfer gwaith pellach.....	10
Dulliau.....	11
Cyfeiriadau	13
Atodiad A: Dogfen dechnegol.....	14
Atodiad B: Atodiad chwiliadau	17
Atodiad C: Echdynnu data.....	20

Cyflwyniad

O ganlyniad i newid hinsawdd a newidiadau mewn defnydd tir, rhagwelir y bydd llifogydd yn digwydd yn fwy aml yn y Deyrnas Unedig, ac o bosibl yn ddigwyddiadau mwy difrifol a pheryglus (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017; Cyfoeth Naturiol Cymru, 2023). Mae ei thopograffeg serth ac agosrwydd preswylwyr at afonydd ac ardaloedd arfordirol yn golygu bod Cymru'n fregus iawn (Llywodraeth Cymru, 2016), gydag amcangyfrif bod 1 o bob 8 eiddo mewn perygl o lifogydd (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2023). Gall llifogydd gael effeithiau niferus, megis economaidd ac amgylcheddol, yn ogystal â chanlyniadau ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Canfu ymchwil a archwiliodd effeithiau llifogydd ar iechyd meddwl yn Lloegr fod pobl a brofodd lifogydd yn eu cartrefi chwe gwaith yn fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd meddwl fel iselder, gorbryder neu anhwylder straen ôl-drawmatig tebygol na phobl nad oedd wedi'u heffeithio gan lifogydd (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017). Cynyddodd y risg o broblemau iechyd meddwl gyda dyfnder y llifddwr a hyd yr amser y bu llifogydd mewn tai. Roedd y rhai yr oedd eu cartrefi dan ddŵr neu yr amharwyd ar eu bywydau gan lifogydd hefyd yn fwy tebygol o ofyn am gymorth a chefnogaeth o unrhyw ffynhonnell (fel practis cyffredinol, ffrindiau a theulu, a gwasanaethau gwirfoddol) na'r rhai nad oedd llifogydd wedi effeithio arnynt. I rai, roedd y cais hwn am help yn debygol o fod wedi'i ysgogi gan faterion iechyd meddwl (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017).

Gofynnwyd i Wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gwaith adolygu tystiolaeth yn ymchwilio i newid hinsawdd, llifogydd ac iechyd, er mwyn llywio agenda ymchwil newid hinsawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Nod yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn yw ateb un cwestiwn o'r cais hwnnw; **Pa ymyriadau sy'n effeithiol i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl mewn a) ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, neu b) ar ôl llifogydd?** Mae ail gwestiwn ynghylch effeithiolrwydd systemau rhybuddio cynnar ar gyfer lliniaru effeithiau iechyd llifogydd hefyd wedi cael sylw mewn papur ar wahân (Hookway A, et al., 2024).

Cynhaliwyd chwiliad cwmpasu o'r llenyddiaeth wrth baratoi ar gyfer y gwaith hwn gan ddefnyddio rhestr Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru o ffynonellau tystiolaeth eilaidd dibynadwy.¹ Ni nodwyd unrhyw adolygiad systematig a oedd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn ymchwil gan ddefnyddio'r ffynonellau hyn, ac felly penderfynwyd ehangu ein chwiliad i chwilio am dystiolaeth eilaidd mewn ystod ehangach o gronfeydd data gwyddonol ac yn y llenyddiaeth lwyd, gan ddefnyddio dull cwmpasu ystwyth (fel yr amlinellir yn Atodiad A). Dylid

¹ Ffynonellau canllawiau a thystiolaeth lefel eilaidd sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio methodoleg gadarn (sy'n glynu at egwyddorion adolygu systematig ac yn cynnwys arfarnu beirniadol gan ddefnyddio offeryn cydnabyddedig). Mae'r rhestr o adnoddau i'w gweld yn atodiad B.

nodi, fodd bynnag, ei bod yn bosibl na chafodd yr holl dystiolaeth yn ymwneud â'r pwnc hwn ei nodi, gan nad oedd ein chwiliadau yn hollgynhwysfawr. Arfarnwyd astudiaethau wedi'u cynnwys yn feirniadol gan ddefnyddio rhestrau gwirio priodol (lle bo'n bosibl) ac mae sylwadau ar drylwyredd methodolegol wedi'u cynnwys yn y tablau echdynnu data (atodiad C) a'u hystyried yn y crynodeb naratif o'r canfyddiadau.

Ystyriaethau a chyfyngiadau methodolegol:

Mae adolygiadau cwmpasu ystwyth yn defnyddio methodoleg gyflym i ddarparu trosolwg eang o'r sylfaen dystiolaeth ar bwnc o ddiddordeb. Eu bwriad yw arwain a llywio gwaith pellach yn hytrach na'u defnyddio ar gyfer polisi ac ymarfer. Canfyddiadau a chasgliadau'r awduron gwreiddiol sydd wedi'u cynnwys yma, nid dehongliad gan y Gwasanaeth Tystiolaeth. Mae'r ffactorau sy'n berthnasol i ateb y cwestiwn uchod a nodwyd o'r astudiaethau wedi'u tynnu a'u crynhoi'n gryno yn yr adroddiad hwn. Os yw ffactor penodol o ddiddordeb, fe'ch cynghorir i ddarllen y ffynonellau lle cawsant eu cymryd yn fwy manwl. Os ydych yn defnyddio unrhyw ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn y cwmpas hwn i lywio polisi, mae'n bwysig ystyried **ansawdd methodolegol a chyffredinolrwydd y canfyddiadau i'ch cyd-destun chi.**

Amcanion

Nod yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn yw ateb y cwestiwn canlynol:

- Pa ymyriadau sy'n effeithiol i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl:
 - (a) mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd
 - (b) ar ôl i lifogydd ddigwydd

Y Negeseuon allweddol

- Bach iawn o ymchwil eilaidd a nodwyd sy'n archwilio effeithiolrwydd ymyriadau i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl ar ôl llifogydd, ac ni chanfuwyd unrhyw ymchwil sy'n archwilio effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer pobl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

- Gall cymorth cyntaf seicolegol ddarparu gwelliannau mewn symptomau iselder a chefnogaeth gymdeithasol lwyr, ond dim newidiadau mewn symptomau straen wedi trawma ymhlith y glasoed (Ramirez M, et al., 2013). Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn gan fod awduron yr adolygiad systematig wedi graddio'r astudiaeth fel un sydd â risg uchel o ragfarn (Hermosilla S, et al., 2023).
- Asesodd un adolygiad o lenyddiaeth y canllawiau presennol ar gynllunio at argyfwng ar gyfer effeithiau llifogydd ar anghenion seicogymdeithasol ac eiechyd meddwl. Canfu'r awduron fod anghenion seicogymdeithasol y rhan fwyaf o bobl yn cael eu diwallu trwy eu perthnasoedd agos â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau; mae cyfrannau llai o bobl yn debygol o fod angen gofal iechyd meddwl arbenigol (Stanke C, et al., 2012).
- Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (2023) yn argymhell ymateb pyramid pedair haen fesul cam ar gyfer dioddefwyr llifogydd i leihau'r effeithiau iechyd meddwl a achosir gan lifogydd ar bobl a chymunedau yr effeithir arnynt. Mae'r ddau weithgaredd cyntaf yn cwmpasu'r camau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth ac yn cynnwys manylion am ddarparu cymorth seicolegol, a fyddai'n cael ei ddarparu'n bennaf gan yr hunan, teulu, ffrindiau, y gymuned leol a/neu ymatebwyr. Gall hyn gynnwys ymyriadau fel llinellau cymorth a sesiynau galw heibio. Mae'r ddau weithgaredd olaf yn disgrifio gofal â mwy o ffocws ac wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg uwch, megis cymorth iechyd meddwl gan wasanaethau gofal sylfaenol, ac yna atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer problemau seicolegol sylweddol a pharhaus.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddarllen y canfyddiadau uchod oherwydd ansawdd y dystiolaeth a diffyg arfarnu beirniadol mewn rhai achosion.

Canfyddiadau

Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth eilaidd a oedd yn canolbwyntio ar archwilio effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a lles ym maes llifogydd yn unig. Fodd bynnag, nodwyd nifer cyfyngedig o adolygiadau perthnasol o'r llenyddiaeth a oedd yn crynhoi astudiaethau sylfaenol yn asesu ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer trychinebau yn ehangach, sy'n cynnwys rhai astudiaethau a gynhaliwyd ar ôl llifogydd. Nodwyd un darn canllaw hefyd. Crynhoir y rhain isod.

Cafodd tri adolygiad o'r llenyddiaeth eu cynnwys yn yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn; roedd un o'r rhain yn adolygiad systematig ac roedd dau yn adolygiadau o lenyddiaeth ansystematig. Roedd yr adolygiad systematig yn canolbwyntio ar

gymorth cyntaf seicolegol ar gyfer digwyddiadau trawmatig, gan gynnwys llifogydd (Hermosilla S, et al., 2023). Roedd un adolygiad o lenyddiaeth ansystematig yn canolbwyntio ar ymyriadau iechyd meddwl ar gyfer trychinebau, a digwyddiadau trawmatig eraill, gan gynnwys llifogydd (Lotzin A, et al., 2023), a'r adolygiad arall o lenyddiaeth ansystematig wedi syntheseiddio'r llenyddiaeth ar gynllunio at argyfwng ar gyfer effeithiau llifogydd ar anghenion seicogymdeithasol ac iechyd meddwl (Stanke C, et al., 2012). Er nad yw adolygiadau o lenyddiaeth ansystematig fel arfer yn cael eu hystyried yn fethodolegol ddigon cadarn i'w cynnwys mewn adolygiad cwmpasu ystwyth, penderfynwyd cynnwys y ddau gyhoeddiad oherwydd prinder adolygiadau systematig cyhoeddedig perthnasol. Mae un darn canllaw hefyd wedi'i gynnwys (Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, 2023). Fodd bynnag, nid yw'r awduron yn disgrifio'r ymchwil a wnaed ganddynt i ddatblygu'r canllawiau hyn. Fe'i cynhwysir yma er gwybodaeth gan y tybir ei fod yn nodi arfer sefydledig yn dilyn llifogydd yn y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd yr ymchwil a ddisgrifir uchod rhwng 2012 a 2023. Mae tabl echdynnu data manwl o'r ffynonellau hyn i'w weld yn Atodiad C.

Mae adolygiad systematig gan Hermosilla S, et al. (2023) yn anelu at asesu effeithiolrwydd cymorth cyntaf seicolegol o ran gwella iechyd meddwl a lles seicogymdeithasol unigolion sy'n agored i ddigwyddiadau trawmatig posibl. Diffiniwyd Cymorth Cyntaf Seicolegol gan yr adolygiad fel dulliau o ddarparu cymorth seicolegol i unigolion yn syth ar ôl digwyddiad llawn straen, a gynlluniwyd i leihau gofid uniongyrchol a lliniaru risg seicopatholeg. Maent yn cynnwys asesu anghenion, gwrando anfeirniadol ac ymgysylltu ac atgyfeirio gwasanaeth lle nodir hynny, a gall gweithwyr gofal iechyd nad ydynt yn weithwyr gofal iechyd meddwl gyflwyno technegau gan nad oes angen hyfforddiant arbenigol arnynt (Hermosilla S, et al., 2023). Cyflawnodd deuddeg astudiaeth y meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, dim ond un astudiaeth gynradd a oedd yn berthnasol i'n cwestiwn ymchwil a gynhwyswyd, a asesodd ymyriad seicogymdeithasol ar ôl llifogydd (Ramirez M, et al., 2013). Yr astudiaeth gynradd hon hefyd oedd yr unig astudiaeth berthnasol a gynhwyswyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth ansystematig a gynhaliwyd gan Lotzin A, et al. (2023). Nod adolygiad Lotzin A, et al. (2023) oedd nodi ymyriadau byr i leihau trallod seicolegol a/neu symptomau isglinigol mewn goroeswyr trychinebau, pandemigau, a digwyddiadau trawmatig eraill ac roedd yn cynnwys cyfanswm o un ar hugain o astudiaethau cynradd cyhoeddedig a chwe astudiaeth gynradd barhaus.

Roedd yr astudiaeth Ramirez M, et al. (2013) a oedd yn gynwysedig yn y ddau adolygiad a ddisgrifiwyd uchod oedd peilota ymyriad cymorth cyntaf seicolegol wedi'i addasu yn yr ysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i lifogydd neu drama unigol yn UDA, o'r enw Rhaglen Gwrando Amddiffyn Cysylltu (Listen Protect Connect). Mae Gwrando Amddiffyn Cysylltu yn rhoi cymorth seicolegol sylfaenol a'i nod yw lleihau trallod cychwynnol myfyrwyr a rhieni yn dilyn digwyddiadau

trawmatig, trychinebau cymunedol, argyfyngau, neu drawma personol. Fe'i cyflwynir gan weithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud ag iechyd meddwl ac mae'n seiliedig ar y strategaeth ymateb i argyfwng pum cam "gwrando, amddiffyn, cysylltu – modelu ac addysgu". Mae astudiaeth Ramirez M, et al. (2013) wedi treialu fersiwn wedi'i haddasu o'r rhaglen (yn cynnwys tri cham: gwrando, amddiffyn, a chysylltu) mewn astudiaeth cyn-ôl heb ei rheoli o 20 o blant (12-17 oed, 20% yn ferched) yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd mawr Iowa yn 2008 a'i nod oedd lleihau symptomau anhwylder straen ôl-drawmatig. Darparodd nyrs yr ysgol un sesiwn Gwrando Amddiffyn Cysylltu i bob myfyriwr (25 munud o hyd ar gyfartaledd).

Mae Ramirez M, et al. (2013) wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn symptomau iselder mewn apwyntiad dilynol ymhen pythefnos (cymedr wedi'i addasu = 14.3; $p < 0.01$) ac mewn apwyntiad dilynol ymhen 4 wythnos (cymedr wedi'i addasu = 13.2; $p < 0.01$). Fodd bynnag, bu cynnydd bach ar ôl 8 wythnos (cymedr wedi'i addasu = 15.2; $p < 0.01$). Canfuwyd hefyd gynnydd ansylweddol mewn cymorth cymdeithasol canfyddedig o'r llinell sylfaen i'r apwyntiad dilynol ymhen pythefnos (wedi'i addasu $M = 3.9$; $p = 0.08$), a chynnydd sylweddol o'r llinell sylfaen i apwyntiad dilynol ymhen 8 wythnos (cymedr wedi'i addasu = 4.0). ; $p < 0.01$). Canfu'r awduron ostyngiad ansylweddol mewn symptomau anhwylder straen ôl-drawmatig dros amser ($p = 0.09$) o'r llinell sylfaen i'r apwyntiad dilynol ymhen 8 wythnos, ac roedd cysylltedd ysgol yn uwch ar 2- (cymedr = 63.8; $p = 0.06$) ac apwyntiad dilynol ymhen 4 wythnos (cymedr = 68.9, $p < 0.01$) nag ar y llinell sylfaen (cymedr = 58.6), ond fe wnaeth y berthynas hon leihau ymhen 8 wythnos (ystadegau heb ei adrodd). Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn, gan fod yr arfarniad ansawdd a gynhaliwyd yn yr adolygiad systematig gan Hermosilla S, et al. (2023) o'r farn fod astudiaeth Ramirez M, et al. (2023) yn un sydd â risg uchel o ragfarn. Yn ogystal, fel astudiaeth beilot, mae'n debygol nad yw wedi ei bweru'n ddigonol ac felly gall y canfyddiadau fod yn annibynadwy.

Mae'r adolygiad ansystematig a gynhaliwyd gan Stanke C, et al. (2012) yn ceisio asesu ac arfarnu'r dystiolaeth epidemiolegol ar lifogydd ac iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys asesu'r canllawiau presennol ar gynllunio at argyfwng ar gyfer effeithiau llifogydd ar anghenion seicogymdeithasol ac iechyd meddwl; darparu adroddiad manwl i lunwyr polisi a gwasanaethau ar ddulliau ymarferol o leihau effeithiau llifogydd ar iechyd meddwl pobl yr effeithir arnynt; a nodi lle y gall ymchwil gefnogi canllawiau ar sail tystiolaeth yn y dyfodol.

Cafodd pedwar deg wyth o astudiaethau cynradd eu cynnwys yn yr adolygiad; roedd pymtheg ohonynt yn ymwneud â llifogydd yng ngwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) Canfu'r awduron fod anghenion seicogymdeithasol y rhan fwyaf o bobl yn cael eu diwallu trwy eu perthnasoedd agos â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau; mae cyfrannau llai o bobl yn debygol o

fod angen gofal iechyd meddwl arbenigol. Nododd yr awduron hefyd themâu allweddol o adolygiadau o ddogfennau sy'n disgrifio'r polisi cyfredol o ran cynllunio a darparu ymatebion gofal iechyd i bobl sy'n profi llifogydd a thrychinebau cyffredinol, megis:

- Pwysigrwydd mabwysiadu dull amsector o hyrwyddo lles ac adferiad sy'n cynnwys cymunedau yn ogystal ag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymateb i lifogydd;
- Tystiolaeth bod anghenion seicogymdeithasol y rhan fwyaf o bobl yn cael eu diwallu gan bobl sy'n agos atynt, ond efallai y bydd angen gofal seicogymdeithasol mwy sylweddol ar rai pobl ac mae dulliau sy'n seiliedig ar egwyddorion cymorth cyntaf seicolegol yn briodol;
- Canfyddiadau bod lleiafrif sylweddol o bobl sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd mewn perygl o ddatblygu anhwylder meddwl ac efallai y bydd angen gwasanaethau gofal iechyd arnynt sy'n cynnwys gofal seicogymdeithasol a gofal iechyd meddwl;
- Bod Model Camau Strategol Gofal ² yn arf defnyddiol ar gyfer cymorth.

Cynhyrchodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (2023) ganllawiau ar sut i wella ar ôl llifogydd, sy'n cwmpasu'r mesurau ataliol sydd eu hangen i leihau'r effeithiau iechyd meddwl a achosir gan lifogydd ar bobl a chymunedau yr effeithir arnynt. Cynlluniwyd y canllawiau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, awdurdodau lleol, cyrff y llywodraeth ac asiantaethau perthnasol cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. **Mae'r canllawiau'n awgrymu mai rhywbeth dros dro fel arfer yw gofid o ganlyniad i lifogydd, gyda'r mwyafrif yn gallu ymdopi ag effeithiau seicolegol llifogydd trwy gyrchu eu hadnoddau a'u rhwydweithiau cymorth presennol. Fodd bynnag, gall lleiafrif pwysig o bobl yr effeithir arnynt gan lifogydd fynd ymlaen i ddatblygu problemau seicolegol mwy difrifol neu waethygu cyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes. Felly, efallai y bydd cyfran fach o unigolion angen mynediad at ofal iechyd seicolegol arbenigol. Bydd y cymorth sydd ei angen ar bob person yn wahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a gall gynyddu neu leihau dros amser.**

Mae'r canllaw yn awgrymu pyramid penodol, pedair haen ar gyfer ymateb i lifogydd. Mae hwn yn ddull graddol lle mae'r ddau weithgaredd cyntaf yn cwmpasu'r camau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth, ac yna gofal â mwy o ffocws ac wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg uwch:

² Wedi'i ddisgrifio fel model gofal sy'n "galluogi cynllunwyr i ystyried ffynonellau cymorth cymdeithasol personol a chyfunol, a sut y datblygir ymatebion i ddigwyddiadau. Mae hefyd yn caniatáu i ofal seicogymdeithasol a gofal iechyd meddwl gael eu cynllunio a'u darparu mewn ffyrdd integredig sy'n dilyn trywydd anghenion y bobl sydd eu hangen. Felly, gall yr awdurdodau cyfrifol greu ymagwedd ddeinamig, hyblyg sy'n cael ei harwain gan anghenion er mwyn sicrhau ymatebion effeithiol i lifogydd" (Stanke C, et al., 2012).

1. Darparu cefnogaeth i fynd i'r afael ag anghenion corfforol a chymdeithasol uniongyrchol yn ystod ac ar ôl llifogydd. Cyfleu negeseuon iechyd meddwl cyhoeddus allweddol sy'n normaleiddio'r trallod a achosir gan lifogydd ac yn dileu'r stigma o'r effeithiau posibl ar iechyd meddwl.
2. Cefnogaeth seicolegol: angen peth cymorth ymarferol, cefnogaeth seicogymdeithasol distrwythur yn cael ei ddarparu'n bennaf gan yr hunan, teulu, ffrindiau, y gymuned leol a/neu ymatebwyr. Gall hyn gynnwys llinellau cymorth a sesiynau galw heibio.
3. Gofal sylfaenol: cymorth gan Feddyg Teulu ac atgyfeirio posibl i wasanaethau Therapiau Siarad lleol y GIG. Mae hyn hefyd yn cynnwys cydnabod anghenion penodol plant trwy raglen sgrinio weithredol ar gyfer y rhai sy'n cael eu hamlygu a darparu cymorth iechyd meddwl fel y bo'n briodol.
4. Atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer problemau seicolegol sylweddol a pharhaus.

Ni roddwyd unrhyw wybodaeth am ffynhonnell y dystiolaeth sy'n sail i'r canllawiau hyn, sy'n golygu nad oedd yn bosibl cynnal gwerthusiad beirniadol. Felly, dylid trin y wybodaeth yn ofalus. Dylid nodi hefyd bod y canllawiau hyn yn ymddangos yn benodol i Loegr. Felly, dylid ystyried ei gyffredinol gan y gallai rhai gwasanaethau arbenigol y GIG fod yn wahanol yng Nghymru.

Trafodaeth, cyfyngiadau, a chasgliadau

Mae'r dystiolaeth gyfyngedig a ddisgrifir yn yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn yn awgrymu y gallai ymyriadau i gefnogi iechyd meddwl a lles fod yn fuddiol i rai pobl sydd wedi profi llifogydd, gydag un astudiaeth beilot yn nodi y gallai cymorth cyntaf seicolegol gael effaith gadarnhaol ar leihau symptomau iselder ymhlith y glasoed sy'n dod i gysylltiad â llifogydd (Ramirez M, et al., 2013 a ddisgrifiwyd gan Hermosilla S, et al., 2023 & Lotzin A, et al., 2023). I eraill, gall rhwydweithiau cymorth presennol, megis teulu a ffrindiau, ddarparu mecanwaith ymdopi digonol (Stanke C, et al., 2012; Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, 2023). Mae model gofal camau hefyd yn cael ei awgrymu fel ffordd briodol o nodi a darparu cymorth iechyd meddwl wedi'i dargedu i unigolion ag anghenion amrywiol ar ôl llifogydd (Stanke C, et al., 2012; Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, 2023).

Mae gan yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn rai cyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli'r canfyddiadau. Yn gyntaf, canolbwyntiodd ein chwiliadau ar nodi ymchwil eilaidd, ac ni wnaethom nodi unrhyw adolygiadau systematig a oedd yn bodloni ein meini prawf cynhwysiant a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd,

neu a oeddynt mewn perygl o lifogydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd astudiaethau sylfaenol sy'n gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan lifogydd, neu sydd mewn perygl o lifogydd, nad ydynt wedi'u cynnwys mewn ymchwil eilaidd eto. Er mwyn canfod a oes bwlch gwirioneddol yn y dystiolaeth ymchwil neu a yw'r bwlch o fewn llenyddiaeth eilaidd yn unig, gellid chwilio ymhellach am astudiaethau cynradd.

Yn ail, daw tystiolaeth a gyflwynir yn yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn o un astudiaeth beilot a gafodd ei graddio fel risg uchel o ragfarn gan awduron yr adolygiad systematig; o un adolygiad o lenyddiaeth na chynhaliodd arfarniad beirniadol o'r astudiaethau cynradd a gynhwyswyd; ac o un canllaw nad oedd yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwaith. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen unrhyw gasgliadau a ddisgrifir uchod, gan na allwn fod yn sicr o'u hansawdd na'u dilysrwydd methodolegol gan na chynhaliwyd unrhyw arfarnu beirniadol.

Yn drydydd, defnyddiodd ein strategaeth chwilio dermau penodol i lifogydd er mwyn cyfyngu ar y canlyniadau a nodi llenyddiaeth eilaidd yn canolbwyntio ar ymyriadau ar gyfer y rhai a oedd wedi profi, neu a oedd mewn perygl o lifogydd. Efallai bod y termau cul a ddefnyddiwyd yn y chwiliad wedi arwain at golli rhai adolygiadau ehangach yn edrych ar ymyriadau iechyd meddwl ar gyfer trychinebau naturiol a allai fod wedi cynnwys llifogydd. Fodd bynnag, gwnaethom y penderfyniad i ddefnyddio termau mwy penodol er mwyn cynnal chwiliad *cyflym* o'r dystiolaeth, sy'n nod datganedig adolygiadau cwmpasu ystwyth (gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth).

Yn olaf, nid yw'r pedwar darn o dystiolaeth a ddisgrifir yn yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn ond yn edrych ar un rhan o'r cwestiwn ymchwil; nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw ymchwil eilaidd a edrychodd ar ymyriadau iechyd meddwl ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o lifogydd.

I gloi, ychydig iawn o dystiolaeth y mae'r adolygiad cwmpasu ystwyth hwn wedi'i nodi sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn ymchwil, ac roedd yr hyn a nodwyd naill ai mewn perygl mawr o ragfarn neu nad oedd modd ei werthuso'n feirniadol oherwydd cynllun yr astudiaeth. Mae'n anodd felly dod i gasgliad pendant ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o lifogydd neu'r rhai sydd wedi profi llifogydd.

Opsiynau ar gyfer gwaith pellach

Er mwyn deall mwy am effeithiolrwydd ymyriadau i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd neu ar ôl llifogydd, gellid cynnal gwaith adolygu tystiolaeth pellach. Gallai hyn gynnwys:

- **ehangu'r chwiliad presennol i gasglu astudiaethau cynradd**, er mwyn lleoli'r holl dystiolaeth sydd ar gael ar y pwnc a chadarnhau a oes bwlch mewn ymchwil cynradd yn y maes hwn.
- **archwilio a allai ymyriadau iechyd meddwl ar gyfer trychinebau naturiol eraill neu ddigwyddiadau trawmatig fod yn drosglwyddadwy i'r rhai sydd wedi profi llifogydd.**
- **ehangu'r chwiliad i edrych ar ymyriadau llifogydd eraill a allai fod yn effeithiol ar gyfer lliniaru'r effeithiau iechyd meddwl ar y rhai sydd mewn perygl o lifogydd, neu sydd wedi profi llifogydd, megis addasiadau eiddo neu ymyriadau cymunedol.** Roedd yr adolygiad cwmpasu ystwyth presennol yn canolbwyntio'n benodol ar ymyriadau seicogymdeithasol, ond mae'n ddigon posibl y gallai ymyriadau eraill hefyd helpu i liniaru'r effeithiau negyddol y gall llifogydd eu cael ar iechyd meddwl a lles pobl. Mae'n bosibl bod hyn yn rhannol wedi cael sylw gan ein hadolygiad cwmpasu ystwyth sy'n archwilio effeithiolrwydd systemau rhybuddion cynnar llifogydd ar gyfer lliniaru effeithiau llifogydd ar iechyd (Hookway A, et al. 2024). Fodd bynnag, gellid dal i wneud rhagor o waith i edrych ar fathau eraill o ymyriadau rheoli perygl llifogydd.

Dulliau

Mae Atodiad A (atodiad technegol) yn rhoi amlinelliad o'r rhesymeg gyffredinol a'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu adolygiadau cwmpasu ystwyth. Mae'r fethodoleg ganlynol yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad cwmpasu ystwyth hwn.

Gan fod hwn yn bwnc eang, cyfyngwyd yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn i gynnwys ymchwil eilaidd yn unig. Mae hon yn ffordd dderbyniol o asesu'r rhan fwyaf o'r sylfaen dystiolaeth yn gyflym, ac er nad yw'n bwriadu nodi pob cyhoeddiad ar bwnc, byddai'n caniatáu ar gyfer cynhyrchu trosolwg. Cafodd astudiaethau sylfaenol eu heithrio gan y byddai cynnwys ffynonellau tystiolaeth sylfaenol ac eilaidd ar bwnc mor eang wedi gwneud yr adroddiad hwn yn anhydrin o fewn amserlen yr ymchwil hwn.

Ffynonellau data: Chwiliwyd un ar bymtheg o ffynonellau tystiolaeth dibynadwy sy'n cadw at egwyddorion adolygu systematig cadarn, ynghyd â Medline, Epistemonikos, PsycInfo a Google Scholar. Cynlluniwyd termau a strategaethau chwilio yn benodol ar gyfer pob ffynhonnell ddata. Cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio cyfuniad o'r termau canlynol:

- Llifogydd, trychineb, trychineb naturiol, perygl naturiol, tywydd eithafol, tywydd;
- Ymyrraeth, rhaglen, polisi, strategaeth, cefnogaeth, cefnogaeth gymunedol, ymyrraeth seicogymdeithasol, ymyrraeth mewn argyfwng, cefnogaeth gymdeithasol;
- Iechyd meddwl, lles, gorbryder, anhwylder gorbryder, ansawdd bywyd, ofn, pryder, trawma, iselder, gwytnwch, ymdopi, straen, anhwylder straen, effaith seicolegol, straen ôl-drawmatig, addasu seicolegol.

Chwiliwyd pedair ffynhonnell ychwanegol hefyd am lenyddiaeth lwyd (manylion yn atodiad B). Mae strategaeth chwilio lawn ar gyfer Medline, ynghyd â rhestr lawn o'r adnoddau a chwiliwyd wedi'u cynnwys yn atodiad B (atodiad chwilio).

Dethol astudiaethau: Aseswyd canlyniadau chwilio ar gyfer eu cynnwys. Sgriniodd dau adolygydd y canlyniadau'n annibynnol o ran perthnasedd ar deitl, haniaethol a thestun llawn yn erbyn y meini prawf cynhwysiant a amlinellir yn Nhabl 1.

Echdynnu data: Lle'r oedd modd, echdynnwyd data sy'n adrodd am nodweddion perthnasol o'r adolygiadau a gynhwyswyd i mewn i dabl echdynnu data (Tabl 2, Atodiad c). Gwiriodd ail adolygydd y data a echdynnwyd. Cafodd anghytundebau ar unrhyw adeg eu datrys trwy drafod gyda thrydydd adolygydd.

Aseiad ansawdd: Lle y bo'n bosibl, cafodd yr astudiaethau a gynhwyswyd eu harfarnu'n feirniadol am eu hansawdd gan ddefnyddio rhestr wirio arfarnu critigol fewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer adolygiadau systematig. Mae manylion y rhestr wirio a ddefnyddiwyd a thrylwyredd methodolegol yr astudiaethau wedi'u cynnwys yn y tablau echdynnu data yn Atodiad C.

Tabl 1. Meini prawf cynnwys

Cwestiwn adolygu 2		
Pa ymyriadau sy'n effeithiol i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl: a) mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd b) ar ôl llifogydd		
	Cynnwys:	Eithrio:
Cyfranogwyr	Oedolion neu blant neu unrhyw gymunedau/grwpiau poblogaeth penodol sydd mewn perygl o lifogydd neu sydd wedi profi llifogydd.	
Ymyriad / amlygiad	Ymyriadau seicogymdeithasol i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl.	Ymyriadau ffarmacolegol Ymyriadau iechyd corfforol
Cymhariaeth	Dim ymyrraeth neu ddim cymhariaeth	
Canlyniadau	Unrhyw fesurau iechyd meddwl a lles, p'un ai ydynt yn cael eu mesur drwy ddefnyddio mesur wedi'i ddilysu neu'n oddrychol.	Canlyniadau iechyd corfforol Bodddhad cleifion
Ystyriaethau Eraill yr Astudiaeth		
Adolygiadau systematig o astudiaethau meintiol, ansoddol neu ddulliau cymysg o unrhyw ddyluniad. Gwledydd OCED (y gellir eu cymharu â'r DU)		

Cyfeiriadau

Hermosilla, S. et al., (2023). We need to build the evidence: A systematic review of psychological first aid (PFA) on mental health and well-being. *Journal of traumatic stress*. 36(1), 5-16.

Hookway, A. et al., (2024). *Are flood early warning systems effective for mitigating the health impacts of flooding: An agile scope of the literature*. Cardiff: Public Health Wales.

Lotzin, A, Franc de Pommereau, A & Laskowsky I. (2023). Promoting Recovery from Disasters, Pandemics, and Trauma: A Systematic Review of Brief Psychological Interventions to Reduce Distress in Adults, Children, and Adolescents. *International journal of environmental research and public health*. 20(7).

Natural Resources Wales (2023). *Natural Resources Wales Flood Risk Management Plan: National overview*. [Natural Resources Wales Flood Risk Management Plan: National overview](#)

Public Health England. (2017). *The English National Study for Flooding and Health: First year report*. [English National Study for Flooding and Health: First year report \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Ramirez M, et al. (2013). Listen protect connect for traumatized schoolchildren: A pilot study of psychological first aid. *BMC Psychology*, 1(1), 26.

Stanke, C, et al., (2012). The effects of flooding on mental health: outcomes and recommendations from a review of the literature. *PLoS currents*. 4.

UK Health Security Agency (2023). *Guidance: how to recover from flooding. Assessment and management of mental health [chapter]*. UK Government website. [How to recover from flooding - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Welsh Government (2016). *Wales Flood Response Framework. December 2016*. Welsh Government. [wales-flood-response-framework.pdf \(gov.wales\)](#)

Atodiad A: Dogfen dechnegol

MAE ADOLYGIADAU CWMPASU ystwyth yn drosolygon systematig a chyflym o'r dystiolaeth ar bwnc sy'n cael eu gyrru gan y rhanddeiliaid. Maent yn darparu trosolwg tryloyw a dibynadwy o'r dirwedd dystiolaeth ac maent yn ddefnyddiol er mwyn:

- sefydlu pa lenyddiaeth sy'n bodoli
- helpu i fireinio cwestiwn eang
- nodi bylchau yn y dystiolaeth
- llywio gwaith pellach gan y rhanddeiliaid.

Mae'r adolygiadau cwmpasau'n defnyddio proses o hyd at dri cham, gan ddibynnu ar ba dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y pwnc. Mae symud ymlaen o'r naill gam i'r llall yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r rhanddeiliaid.

1. Y cam cyntaf yw tynnu ar dystiolaeth adolygiadau systematig bresennol sydd wedi'u nodi mewn ffynonellau dibynadwy³ (ffynonellau tystiolaeth eilaidd sy'n defnyddio methodolegau cadarn) lle mae hyn yn bodoli. Nid yw'r Gwasanaeth Tystiolaeth yn cynnal gwerthusiad beirniadol o'r adolygiadau hyn.
2. Os nad oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, wedi'i nodi ar hyn o bryd, cynhelir chwiliad syml iawn yn Medline gan ddefnyddio allweddeiriau yn unig i ganfod budd cynnal chwiliadau pellach mewn ystod ehangach o gronfeydd data. Bydd crynodeb o ganlyniadau'r chwiliad (h.y., nifer, cynllun yr astudiaeth, perthnasedd ac ati) yn cael ei ddarparu yn y cwmpas ystwyth i helpu i hysbysu rhanddeiliaid.
3. Lle nad oes fawr ddim tystiolaeth eilaidd y gellir ymddiried ynnddi yn bodoli, os o gwbl, ac os yw'r chwiliad Medline a gynhaliwyd yng ngham 2 yn nodi ei fod o fudd, gellir ymestyn y cwmpas, ar gais y rhanddeiliad, i gynnwys chwiliad am adolygiadau systematig neu lenyddiaeth sylfaenol yn Google Scholar, Scopus neu Medline, fel y bo'n briodol. Yn y cam hwn ac unrhyw gam dilynol, byddai angen asesu ansawdd y dystiolaeth a nodwyd.
4. Nid yw astudiaethau sylfaenol yn cael eu cynnwys fel arfer, oni bai bod ychydig neu ddim adolygiadau systematig yn cael eu nodi yng ngham rhagarweiniol cam 1, neu fod rhanddeiliaid yn gofyn am hynny yn dilyn gwaith cynharach y maent wedi'i wneud.

Ystyriaethau

- Nid yw'r cwmpas yn ceisio nodi'r holl dystiolaeth ar bwnc penodol.
- Ni fydd pob canlyniad a nodir yn y llenyddiaeth o reidrwydd yn cael ei
- gynnwys yn yr adroddiad cwmpasu hwn am nifer o resymau, gan gynnwys:
 - Mae'r canlyniadau a gynhwysir yn y cwmpas wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n

³ Darperir y ffynonellau ar restr y Gwasanaeth Tystiolaeth o'r adnoddau tystiolaeth eilaidd y gellir ymddiried ynnddynt yn Nhabl 1

- berthnasol i gwestiwn gwreiddiol y rhanddeiliaid.
- Mae'n bosibl nad yw canlyniadau wedi'u hadrodd yn y ffynonellau eilaidd, er y gallen nhw fodoli yn y llenyddiaeth sylfaenol. Gan hynny, fydd y canlyniadau hyn ddim yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad cwmpasu.
- Nid yw canfyddiadau mewn adolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn cael eu hasesu i weld a oes modd eu cyffredinoli yn y cyd-destun Cymreig. [Byddai hynny'n broses gymhleth gan fod tystiolaeth eilaidd yn debygol o gynnwys astudiaethau o nifer o wledydd.] Byddai angen i'r rhanddeiliaid ystyried hyn os ydyn nhw'n defnyddio tystiolaeth eilaidd i lywio polisi ac arferion. Gellid gofyn am waith ychwanegol os oes ei angen.
- Mae'r cwmpas yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau awduron y ffynonellau. Os oes elfen benodol o'r adroddiad o ddiddordeb arbennig, mae'n ddoeth darllen y ffynhonnell/ffynonellau y mae'n tarddu ohonyn nhw yn fanylach, gan y bydd hyn yn rhoi mwy o gyd-destun. Gellir gwneud gwaith pellach ar feysydd penodol os oes ei angen.
